Canolfan Cydweithredol Cymru

Y BWRDD

Rolau a Chyfrifoldebau

Datblygwyd y disgrifiadau swyddi hyn i hyrwyddo gweledigaeth a gwerthoedd y Ganolfan.

Maent yn seiliedig ar Reolau'r Ganolfan, Cod Ymddygiad y Bwrdd a'r Materion a gedwir yn ôl ar gyfer polisi'r Bwrdd.

Fersiwn 1.2
Ionawr 2018
Awdur: Gweithgor y Bwrdd

Rôl Cyfarwyddwr y Bwrdd

Prif Bwrpas

- Arwain y ffordd o ran sicrhau bod pwrpas, cenhadaeth a gwerthoedd Canolfan Cydweithredol Cymru yn cael eu rhoi ar waith
- Hyrwyddo Canolfan Cydweithredol Cymru a statws cydweithredol
- Cydweithio i bennu cyfeiriad strategol, polisïau a safonau Canolfan Cydweithredol Cymru
- Monitro perfformiad yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt a thueddiadau drwy gynnal arfarniad beirniadol rheolaidd o wybodaeth ariannol, gwybodaeth am berfformiad a gwybodaeth berthnasol arall
- Dal rheolwyr a staff i gyfrif drwy herio cynigion gan adeiladu a chraffu ar gynlluniau i wella perfformiad a gweithgareddau newydd
- Cefnogi'r Prif Weithredwr a staff y Ganolfan i gyflawni'r strategaeth a'r cynllun gweithredol blynyddol

Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau

1. Paratoi ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau, is-grwpiau neu weithgorau a'u mynychu a herio gwybodaeth ac eraill yn adeiladol, cymryd rhan mewn trafodaethau a phenderfyniadau, rhannu cyfrifoldeb cyfunol dros wneud penderfyniadau'r Bwrdd a'u cefnogi
2. Ymrwymo i fynychu o leiaf 80% o gyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau (o gael eich penodi i bwyllgor)
3. Gofyn am gyngor arbenigol pan deimlir fo angen fel bod y Bwrdd yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus
4. Cymryd rhan mewn hyfforddiant sefydlu (aelodau newydd o'r Bwrdd) a hyfforddiant a datblygiad parhaus fel unigolyn neu gydag eraill i sicrhau bod y Bwrdd yn dysgu a datblygu'n barhaus
5. Paratoi ar gyfer digwyddiadau/sesiynau diwrnodau cwrdd i ffwrdd, hyfforddiant, cynadleddau a seminarau a'u mynychu fel y bo'n briodol a darparu adborth i'r Bwrdd cyfan pan fo angen
6. Paratoi ar gyfer adolygiadau ac arfarniadau'r Bwrdd/llywodraethu a chymryd rhan ynddynt – fel unigolyn a chydag eraill
7. Hyrwyddo thema neu fater penodol fel unigolyn ac ar y cyd ag aelodau eraill o'r Bwrdd fel y bo'n briodol
8. Hyrwyddo buddiannau gorau'r Ganolfan a chydymffurfio â'i chyfrifoldebau cyfreithiol ym mhob penderfyniad
9. Cynnal gwerthoedd ac enw da Canolfan Cydweithredol Cymru
10. Cydymffurfio â Rheolau, Cod Ymddygiad ac unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau cyfreithiol sydd gan y Ganolfan

11. Datgan yr holl achosion perthnasol o wrthdaro buddiannau
12. Parhau i ddeall gweithgareddau Canolfan Cydweithredol Cymru a'r amgylchedd y mae'n gweithio ynddo drwy ddarllen deunydd perthnasol, trafod gyda rhanddeiliaid, mynychu digwyddiadau perthnasol, ac ati.
13. Datblygu a chynnal cysylltiadau gwaith da gyda chydweithwyr y Bwrdd, y Prif Weithredwr, Uwch Dîm Rheoli a rhanddeiliaid
14. Cynrychioli Canolfan Cydweithredol Cymru pan gytunir ar hynny